



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd a Gofal
Digidol Cymru
Digital Health
and Care Wales

Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2025-2026

RHAGAIR

Rydym wrth ein bodd yn myfyrio ar a rhannu'r cynnydd a wnaed yn nhrydedd flwyddyn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2023–2027. Mae cynnwys yr adroddiad hwn yn adlewyrchu ymrwymiad parhaus IGDC i hyrwyddo cydraddoldeb, dileu gwahaniaethu a hyrwyddo cynhwysiant, fel cyflogwr ac yn y gwasanaethau a'r cynhyrchion yr ydym yn eu darparu.

Yn ystod y cyfnod adrodd rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026, mae cydweithio ac ymgysylltu parhaus â staff a rhanddeiliaid wedi bod yn allweddol wrth yrru'r agenda hon ymlaen, gan sicrhau bod ein gwerthoedd a'n hymddygiadau yn parhau i gael eu hymgorffori ym mhopeth yr ydym yn ei wneud. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu sut mae IGDC yn sicrhau tryloywder a thriniaeth deg, wrth ddarparu gwasanaethau ac amgylcheddau sy'n gynhwysol, yn ymatebol ac yn hygyrch. Drwy ein hymdrechion parhaus, ein nod yw parhau i gefnogi Cymru fwy cyfartal, a fydd yn cael effaith wirioneddol a chadarnhaol ar fywydau pobl Cymru.



Mae gan y Bwrdd ac uwch arweinwyr y sefydliad rôl hanfodol wrth arwain yr agenda cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant; fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod pawb yn rhannu'r cyfrifoldeb i gydweithio i gyflawni gwir gynhwysiant.

Ein huchelgais barhaus yw dathlu IGDC fel lle gwydych nid yn unig i weithio, ond i ffynnu, arloesi a chyflawni pethau gwydych gyda'n

gilydd. Rydym yn parhau i anelu at fod yn gyflogwr o ddewis, yn adnabyddus am ein diwylliant o fod yn agored a thryloywyder, arweinyddiaeth dosturiol ac am fod yn sefydliad sy'n dysgu, sy'n croesawu syniadau ac adborth amrywiol, ac sy'n buddsoddi mewn dysgu, datblygu ac ymgysylltu ehangach.

CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae'r Adroddiad Cydraddoldeb Blynnyddol hwn yn adlewyrchu'r cynnydd a wnaed yn ystod trydedd flwyddyn Cynllun Cydraddoldeb Strategol Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) 2023–2027. Mae'r adroddiad yn cwmpasu'r cyfnod o 1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026. Fel y sefydliad digidol cenedlaethol ar gyfer GIG Cymru, sy'n rhoi pobl yn gyntaf, rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb, dileu gwahaniaethu, a hyrwyddo amgylchedd cynhwysol lle gall yr holl staff ffynnu.

Nodweddwyd y flwyddyn hon gan drawsnewid o fwriad strategol i atebolrwydd sy'n seiliedig ar ddata, gyda chefnogaeth lansio ein Strategaeth Pobl ddiwygiedig (2026–2030) a gweithredu pum blaenoriaeth allweddol ar gyfer Pobl a Datblygu Sefydliadol (POD).

Mae'r Cyflawniadau Allweddol wedi'u cynnwys isod:

- **Mewnwelediadau a Hyrwyddir gan Ddata:** Rydym wedi ehangu ein hadroddiadau i gynnwys dadansoddiad gwirfoddol o'r Bwlch Cyflog Ethnigrwydd ac Anabledd, gan sefydlu llinell sylfaen gynhwysfawr i nodi a mynd i'r afael â rhwystrau systemig.
- **Cynrychiolaeth y Gweithlu:** Mae cynrychiolaeth Lleiafrifoedd Ethnig wedi cynyddu i 13%, cynnydd o 1% o'i gymharu â'r cyfnod blaenorol, tra bod 8.89% o'n gweithlu yn nodi eu bod yn anabl. Mae ein Bwrdd yn parhau i fod yn enghraifft o arweinyddiaeth amrywiol gyda 53% o fenywod wedi'u cynrychioli, sy'n llawer uwch na chyfartaledd y DU. Rydym yn parhau i weld culhau cadarnhaol yn y bwlch cyflog rhywedd cymedrig i 5.56%.
- **Rheoli Talent Strategol:** Cyflwynodd gweithredu fframwaith Digidol, Data a Thechnoleg (DDaT) dan arweiniad y Llywodraeth fwy o dryloywder ynghylch ein rolau a'n llwybrau gyrfa.
- **Addysgiadol:** Rydym yn cynnal cydymffurfiaeth uchel mewn hyfforddiant gorfodol, gan gynnwys 94.5% ar gyfer Gwrth-hiliaeth a 95.36% ar gyfer Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol.

Er ein bod yn dathlu llwyddiant, rydym yn cydnabod meysydd sydd angen camau gweithredu â ffocws. Mae ehangu ethnigrwydd ac anabledd yn golygu y gallai bod angen ymchwilio a gweithredu ymhellach ar fylchau cyflog, yn bennaf oherwydd recriwtio llwyddiannus talent amrywiol ar lefel mynediad. Mae atebolrwydd arweinyddiaeth yn ganolog i'n llwyddiant, ac mae'r Bwrdd a'r tîm Gweithredol yn parhau i ddangos nawdd gweladwy trwy fynychu dathliadau diwylliannol, cymryd rhan mewn hyfforddiant recriwtio i reolwyr, ac arwain trafodaethau Gofod Diogel ar ddeddfwriaeth sy'n esblygu. Mae ein dadansoddiad o ddata prentisiaethau yn tynnu sylw at gynnydd o ran denu menywod fel rhan o'r fenter "Menywod mewn Technoleg" dan arweiniad y Prif Weithredwr.

Gan symud ymlaen i 2026–27, byddwn yn ymgorffori amcanion perfformiad Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) cyffredinol ar draws y sefydliad ac yn ymestyn ein gwaith i gael mwy o effaith yn ein cymunedau.

CYFLWYNIAD

Gweithredodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2023–2027 cyntaf ym mis Ebrill 2023. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, gan fanylu ar y camau a gymerwyd i gefnogi'r fframwaith cyfreithiol a sefydlwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'n amlinellu'r camau a gymerwyd rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026 i gefnogi'r fframwaith cyfreithiol a sefydlwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010, ochr yn ochr â chyflawni cynlluniau gweithredu allweddol, gan gynnwys Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-Hiliol (ArWAP) a Chynllun Gweithredu LHDTG+. (Gweler Atodiad 4).

Mae'r adroddiad cydraddoldeb blynyddol yn cyd-fynd ag adrodd sefydliadol ehangach, gan gynnwys adroddiad Bwlch Cyflog Rhywedd ac adroddiad Safon Cydraddoldeb Hil y Gweithlu (WRES), gan bwysleisio ymhellach ymroddiad IGDC i hyrwyddo cydraddoldeb.

O fewn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, mae blaenoriaethau wedi'u rhannu'n 5 ymrwymiad allweddol, gydag amcanion a chamau gweithredu wedi'u halinio i gyflawni'r ymrwymadau hyn. Eleni, mae Mawrth 31 yn nodi diwedd trydedd flwyddyn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol presennol. Mae amcanion a chamau gweithredu blwyddyn 1, 2 a 3 wedi cychwyn ac ar wahanol gamau o gynnydd.

EIN DYLETSWYDDAU CYFREITHIOL

Deddf Cydraddoldeb 2010: Yn IGDC, rydym yn hyrwyddo'r fframwaith cyfreithiol a ddarperir gan y Ddeddf Cydraddoldeb i amddiffyn unigolion rhag gwahaniaethu ac yn hyrwyddo cyfle cyfartal yn rhagweithiol. Mae ein hymrwymiad yn ymestyn i bob unigolyn sy'n uniaethu â'r nodweddion gwarchodedig canlynol:

- Oedran
- Anabledd
- Ethnigrwydd
- Ailbennu Rhywedd
- Priodas a Phartneriaeth
- Sifil
- Beichiogrwydd a Mamolaeth
- Crefydd/Cred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd Rhywiol

Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED): Rydym yn ymgorffori egwyddorion "sylw dyledus" yn ein gweithrediadau dyddiol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wahaniaethu anghyfreithlon. Ein hymrwymiad yw hyrwyddo cydraddoldeb, hyrwyddo perthnasoedd cydlynol, wrth feithrin amgylchedd o barch cydfuddiannol i bawb.

Safonau'r Gymraeg: Rydym yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, gan ei gwreiddio ar draws ein holl bolisiau, gweithdrefnau, gwasanaethau a chynhyrchion, a chefnogi amgylchedd lle mae'r Gymraeg yn ffynnu ymhlith ein staff a'n rhanddeiliaid. Drwy ymgorffori profiad dwyieithog mewn cynhyrchion digidol a phwyntiau cyswllt cwsmeriaid, mae hyn yn arwain at ganlyniadau a phrofiad cleifion gwell.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Rydym yn gwerthuso effaith hirdymor ein penderfyniadau yn seiliedig ar lesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, gan sicrhau bod cynaliadwyedd wrth wraidd ein gwaith. Un o'n Hamcanion Llesiant yw 'Rhoi pobl yn gyntaf fel cyflogwr amrywiol, teg a chynhwysol a chynnig gwaith ystyrlon, talu'r cyflog byw go iawn fel isafswm a datblygu sgiliau digidol'.

Tirwedd Deddfwriaethol a Pholisi / Strategaeth:

- Cymru iachach: Mae strategaeth Llywodraeth Cymru yn pwysleisio dull system gyfan o ymdrin ag iechedd a gofal cymdeithasol, gan ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau fod yn deg ac ystyried anghenion amrywiol y boblogaeth.
- Strategaeth y Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Yn cynnwys ymrwymïadau penodol i hyrwyddo gweithlu cynhwysol ac amrywiol, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, a sicrhau bod staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi.
- Strategaeth Ddatgarboneiddio: Yn cydnabod pwysigrwydd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wrth greu cymunedau cynaliadwy a gwydn wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechedd.

EIN GWERTHOEDD

Credwn fod ein gwerthoedd yn hanfodol i bopeth rydym yn ei wneud, gan ddiffinio sut rydym yn ymgysylltu â'n cydweithwyr, rhanddeiliaid mewnol ac allanol, a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Cafodd ein gwerthoedd eu cyd-gynhyrchu gan ein pobl ac maent yn parhau i fod yn sylfaen i ddiwylliant IGDC rydym yn parhau i'w adeiladu.

Drwy gydol 2025, rydym wedi parhau i lunio'r diwylliant hwn yn weithredol drwy ymgorffori ein gwerthoedd drwy ddeialog barhaus, yn fwyaf nodedig yn ystod sioeau teithiol strategol a sesiynau ymgysylltu dan arweiniad ein Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol. Sicrhodd y sesiynau hyn fod ein hymddygiadau ar y cyd yn cael eu hymgorffori a'u halinio â chenhadaeth ein sefydliad.



lechyd a Gofal
Digidol Cymru
Digital Health
and Care Wales

Ein Gwerthoedd

 CYDWEITHIO Gwaith tîm Cefnogi a herio Gwrando gwerthfawrogi ein gilydd Gwerthuso / myfyrio Dysgu parhaus	 ARLOESI Meddwl creadigol Dewrder Trawsnewid Croesawu newid Uchelgeisiol	 CYNHWYSOL Amrywiaeth Cydraddoldeb Parch Tegwch Chwarae teg Dathlu llwyddiant a chyflawniadau	 RHAGORIAETH Ansawdd Gwelliant parhaus Anelu at sicrhau canlyniadau da Balchder yn yr hyn a wnawn Atebolrwydd Grymuso	 TOSTURI Urddas Caredigrwydd Empathi Cyfrifoldeb personol Ymddiriedaeth
---	--	---	---	---

Credwn fod ein gwerthoedd yn rhan annatod o bopeth a wnawn a byddant yn cael eu hadlewyrchu ym mhob rhyngweithiad a chydweithwyr, rhanddeiliaid, cwsmeriaid presennol a chwsmeriaid posibl.

IGDC • DHCW

YMRWYMIADAU IGDC YN Y CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cynnwys 5 ymrwymiad allweddol i hyrwyddo Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant:

Ymrwymiad 1 - Cefnogi ein Pobl

Ymrwymiad 2 - Sicrhau bod pawb yn cael eu haddysgu a'u dwyn i gyfrif

Ymrwymiad 3 - Defnyddio data ac olrhain i ddeall ein man cychwyn
a'n hymrwymadau cefnogol

Ymrwymiad 4 - Dadansoddi er mwyn deall y cyfleoedd a'r rhwystrau hyn yn well

Ymrwymiad 5 - Nawdd gweladwy a gweithredol trwy ein partneriaid

Mae'r pum ymrwymiad strategol hyn yn darparu fframwaith ar gyfer ein hamcanion a'n gweithredoedd ac maent wedi'u halinio'n uniongyrchol â'n gwerthoedd, sy'n hanfodol ar gyfer adeiladu diwylliant gwirioneddol gynhwysol, gan sicrhau bod tegwch a pharch wrth wraidd popeth yr ydym yn ei wneud. Mae'r adroddiad wedi'i strwythuro o amgylch y pum ymrwymiad allweddol hyn, gyda diweddariad ar y cynnydd a wnaed yn ystod blwyddyn 3 y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

YMRWYMIAD 1 – CEFNOGI EIN POBL

Mae IGDC wedi parhau i ddangos ei ymrwymiad i gefnogi ei bobl drwy ystod o fentrau drwy gydol y cyfnod adrodd.

Achosodd datblygiadau yn y DU, a oedd yn ymwneud â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, ansicrwydd, pryder a gofid i bobl gydag adroddiadau yn y cyfryngau a chyhoeddiadau am newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth. I gefnogi ein pobl, cynhaliodd IGDC gyfarfodydd Gofod Diogel, gyda'r nod o wrando, dysgu a darparu gwybodaeth i helpu pobl trwy'r heriau y gallent fod yn eu hwynebu. Pynciau'r trafodaethau hyn oedd:

- Datganiad Ysgrifenedig: Dyfarniad y Goruchaf Lys ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2025 ar ddiffiniad dyn, menyw a rhyw.
- Adfer rheolaeth dros fewnfudo: Papur Gwyn, sy'n nodi cynlluniau i ddiwygio'r systemau mewnfudo, gyda chysylltiadau â systemau sgiliau a fisâu, a ryddhawyd ym mis Mai 2025.
- Llwybrau i Waith: Papur Gwyrdd Diwygio Budd-daliadau a Chymorth i Gael Prydain i Weithio, a ryddhawyd ym mis Mawrth 2025.

Hwyluswyd y sesiynau hyn gan bobl â phrofiad personol er mwyn sicrhau bod dealltwriaeth o gymhlethdodau a sensitifrwydd y pynciau hyn. Mynychodd aelodau'r tîm Gweithredol y sesiynau hyn hefyd, gan ddangos ymrwymiad yr uwch arweinyddiaeth. Er mwyn ymgorffori'r diwylliant cefnogol hwn ymhellach, cynhaliwyd sesiynau "Gwrando a Dysgu" i reolwyr rannu themâu o'r cyfarfodydd hyn a llywio'r heriau hyn ar y cyd.

Fel rhan o'n Cynllun Gweithredu LHDTTC+, cefnogodd IGDC sefydlu cymuned ar-lein bwrpasol drwy Viva Engage. Galluogodd y platfform hwn i'n cydweithwyr LHDTTC+ gael lle diogel a chyfrinachol i ddod o hyd i gefnogaeth a thrafod heriau cyfoes, gan gynnwys materion trawsryweddol, fel nad oes neb yn teimlo'n unig yn ystod cyfnodau heriol ac ansicr.

Yn ystod mis Pride ym mis Mehefin 2025, arddangosodd staff Gefndiroedd Microsoft Teams gyda lliwiau Pride a cherddodd sawl cydweithiwr, gan gynnwys uwch arweinwyr, yn yr orymdaith Pride i ddangos cefnogaeth a chynghreiriad i'r gymuned LHDTTC+. Hwylusodd aelod o'r Bwrdd sgwrs yn trafod hanes Pride, y rhesymau dros y lliwiau ar faner Pride Cymru a Dyfarniad y Goruchaf Lys. Mae Atodiad 3 Ffigur 4 yn dangos cynrychiolaeth o grefydd a ffydd yn IGDC.

Fel rhan o'n hymrwymadau yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, rydym yn dathlu amrywiaeth, a'r holl nodweddion a amlinellir yn y Ddeddf Cydraddoldeb, gan gynnwys crefydd.

- Ar 12 Mawrth 2025, hwylusodd y Parchedig David Oliver o Eglwys y Ddinas sesiwn sbotolau ar symbolaeth y Pasg a rhannodd sut mae'r Pasg yn cael ei ddathlu ledled y Byd mewn gwahanol ddiwylliannau.
- Ar 10 Mehefin 2025, gwahoddodd Hyrwyddwyr Rhwydwaith EDI ac aelodau o'r ffydd Fwslimaidd staff i ymuno i ddathlu Eid ul-Adha, dros baned a byrbrydau.
- Ar 20 Tachwedd 2025, cynhaliodd Rhwydwaith EDI, ynghyd ag aelodau o'r Gymuned De Asiaidd, ddigwyddiad cinio "Gadewch i Ni Ddathlu Diwali Gyda'n Gilydd" gyda thua mwy na 120 o bobl yn bresennol yn swyddfa Caerdydd.
- Ym mis Rhagfyr 2025, gwahoddwyd cydweithwyr Cristnogol i rannu postiadau blog myfyriol ar arwyddocâd personol ac ysbrydol y Nadolig. Rhoddodd hyn lwyfan i'n cydweithwyr Cristnogol rannu eu profiadau bywyd gan bwysleisio pwysigrwydd eu ffydd, traddodiadau teuluol ac ysbryd y Nadolig y tu hwnt i ddathliadau masnachol yn ystod y tymor. Fe wnaeth rhannu'r mewnwelediadau hyn helpu i gryfhau ein diwylliant o barch i'r ddwy ochr, gan gydnabod yr ystyr bersonol a chrefyddol dwfn sydd gan y gwyliau i'n cymuned Gristnogol.
- Dangosodd y sefydliad gefnogaeth i gydweithwyr drwy gydnabod Diwrnod Cofio'r Holocaust ar 27 Ionawr 2026, a rhoi cyfle i bawb fyfyrrio ar wersi a ddysgwyd o'r gorffennol a chadarnhau ein hymrwymiad i hyrwyddo cynhwysiant a pharch at bawb.

- Bob blwyddyn, yn ystod Ramadan 17 Chwefror-18 Mawrth 2026, rhannai'r sefydliad wybodaeth i gefnogi ei bobl, gan godi ymwybyddiaeth ymhlith yr holl gydweithwyr i fod yn sensitif tuag at y rhai sy'n dilyn y cyfnod ymprydio, a gwybodaeth am arwyddocâd yr amser hwn. Cefnogir y dull addysgol hwn gan fesurau ymarferol, gan gynnwys canllawiau ar drefniadau gweithio hyblyg a hybrid i gymodi amseroedd gweddi ac anghenion iechyd a lles eraill, gyda chyfathrebu ar hunanofal a chadw'n iach wrth ymprydio. Ar ben hynny, rydym yn sicrhau bod mannau pwrpasol, cynhwysol ar gyfer gweddi a myfyrio ar gael ar draws pob safle IGDC, gan sicrhau y
- Gall diwylliant a chrefydd fod yn gysylltiedig weithiau, ond mae yna wahaniaethau amlwg hefyd. Gweler Atodiad 1 am ddiffiniadau. Rydym yn rhoi pwyslais ar addysgu ein gweithlu a chodi ymwybyddiaeth o brofiadau bywyd er mwyn rhannu gwybodaeth am y gwahaniaethau a'r tebygrwydd hyn. Mae'r dull hwn yn cefnogi symud y tu hwnt i dybiaethau a chael gwared ar unrhyw ragfarn bosibl. Mae Atodiad 2 yn cynnwys amrywiaeth o bynciau sy'n cwmpasu gwahanol feysydd diwylliant a chrefydd.

Yn 2025, datblygwyd modiwl o'r enw Arweinyddiaeth Dosturiol a chynhaliwyd gweithdai peilot mewn diwrnodau cwrdd i ffwrdd Cyfarwyddiaethau. Cyflwynir y Rhaglen Arweinyddiaeth Dosturiol ochr yn ochr â'r Addewid Arweinyddiaeth Dosturiol, sy'n annog sefydliadau GIG Cymru i ymrwymo i'r addewid. Mae adborth a gasglwyd o weithdai peilot yn cael ei adolygu cyn cyflwyno'r rhaglen ar draws y sefydliad yn Chwarter 4 y cyfnod adrodd.

YMRWYMIAD 2 – SICRHAU BOD PAWB YN CAEL EU HADDYSGU A'U DWYN I GYFRIF

Mae IGDC yn cynnal pwyslais cryf ar addysgu'r holl staff a hyrwyddo atebolrwydd i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Dangosir yr ymrwymiad hwn yn gyson trwy amrywiol weithgareddau sefydliadol. Mae'r sefydliad yn integreiddio ei werthoedd a'i ymddygiadau i bob cyfle, gan gynnwys hyfforddiant Ymsefydlu, hyfforddiant Arweinyddiaeth a Thalent, TENTalks a Sesiynau Sbotolau, hyfforddiant mewnol, Prentisiaethau, Cyfarfodydd Briffio Staff, a Chynadleddau Staff.

Wedi'u cyflwyno'n rhithiol, mae ein TENTalks a'n Sesiynau Sbotolau wedi'u cynllunio fel cyfleoedd dysgu hygyrch, effaith uchel sy'n ffitio'n ddi-dor i'r diwrnod gwaith. Mae'r sesiynau hyn yn codi ymwybyddiaeth hanfodol ac yn gyrru ein hagenda Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ymlaen, gan ddarparu ar gyfer amserlenni staff a gofynion gwasanaeth amrywiol. Gweler Atodiad 2 am yr ystod o bynciau a drafodir.

Mae IGDC hefyd yn cynnig cyfres gynhwysfawr o hyfforddiant fel elfen graidd o reoli talent strategol, wedi'i chynllunio i rymuso ein gweithlu amrywiol. Mae hyfforddiant rheoli gwrthdaro yn rhoi'r offer i'n pobl hwyluso deialog adeiladol ac adeiladu perthnasoedd proffesiynol cryfach ar draws y sefydliad.


Mae ein sesiynau Rheoli Newid yn helpu staff i lywio cymhlethdodau newid sefydliadol ar draws prosiectau amrywiol IGDC. Mae'r sesiynau hyn yn canolbwyntio ar gefnogi rheolwyr llinell a staff drwy heriau cynhenid y cyfnod pontio, gan ddarparu fframwaith i reoli ansicrwydd a lliniaru'r straen sy'n aml yn gysylltiedig ag amgylcheddau gwaith sy'n esblygu fel cyflwyno offer Deallusrwydd Artiffisial. Drwy roi'r sgiliau i'n harweinwyr gyfathrebu'n dryloyw ac yn dosturiol, rydym yn sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u bod nhw'n cael y wybodaeth gywir, sy'n hanfodol ar gyfer cynnal gweithle gwirioneddol gynhwysol lle gall pawb ffynnu yn ystod cyfnodau o dwf.

Yn ystod 2025, llwyddodd dau berson o IGDC i sicrhau lle ar fenter datblygu 12 mis Addysg a Gwella Iechyd Cymru, sef Camu i Uwch Arweinyddiaeth, sy'n cefnogi cydweithwyr â photensial uchel o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i drawsnewid i rolau uwch arweinyddiaeth.

Cafodd sesiwn Cynnal Sgyrsiau Anodd a Dewr ei chynllunio'n benodol i gefnogi amgylchedd cynhwysol a diogel yn seicolegol. Mae'r sesiynau hyn yn darparu awgrymiadau ac arweiniad ymarferol ar gyfer ymdrin â sefyllfaoedd sensitif, gan rymuso staff a allai deimlo ymdeimlad o ofn neu ansicrwydd wrth fynd i'r afael â gwrthdaro neu godi llais.

Drwy gydnabod bod gwahaniaethau diwylliannol yn llunio sut mae unigolion yn canfod ac yn ymdrin â gwrthdaro, mae'r hyfforddiant yn helpu i bontio bylchau mewn dealltwriaeth ac yn rhoi'r offer angenrheidiol i staff lywio sgysiau pwysig gydag empathi. Mae datblygu'r sgiliau hyn yn hanfodol ar gyfer cael gwared ar rwystrau i gynhwysiant, gan sicrhau bod pob person, waeth beth fo'i gefndir, yn cael ei glywed a'i barchu yn ystod sefyllfaoedd heriol.

Fel y dangosir yn Ffigur 1, mae IGDC yn monitro ac yn olrhain hyfforddiant dewisol. Mae'r siart yn dangos presenoldeb ar gyfer tair menter hyfforddi yn ôl Cyfarwyddiaeth. Mae data monitro ac olrhain yn tynnu sylw at y nifer sy'n mynychu hyfforddiant ac yn helpu i nodi ble y gallai fod angen pynciau ychwanegol neu amgen, yn ogystal ag unrhyw rwystrau i fynychu.



Cyflwynwyd Polisi Adolygu Gwerthuso a Datblygu diwygiedig yn 2024, i gryfhau atebolrwydd drwy hyrwyddo tegwch, deialog ystyrion ddwyffordd, a chefnogaeth wedi'i theilwra ar gyfer cydweithwyr ag anableddau ac anghenion y Gymraeg. Cafodd y diwygiadau eu llywio gan Archwiliad Mewnol Gwerthuso Pobl a Datblygu Sefydliadol, a archwiliodd sut roedd gwerthusiadau'n cael eu cynnal ar draws y sefydliad, gyda ffocws penodol ar degwch. Arweiniodd canfyddiadau'r archwiliad at sawl gwelliant a gafodd eu hymgorffori yn y polisi, gan sicrhau cyd-fynd yn llawn â'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Mae'n ofynnol i bob rheolwr sy'n rhan o'r broses werthuso gwblhau Hyfforddiant y Rhaglen Rheolwyr, sy'n cynnwys modiwl ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth. Cefnogir hyn gan Broses Adolygiad Gwerthuso a Datblygu Perfformiad a Phecyn Cymorth Datblygiad Cyflog, gan sicrhau dull cyson a thryloyw i reolwyr a staff ar draws y sefydliad.

Mae ein hymrwymiad i ymgorffori cydraddoldeb a chynhwysiant yn cael ei ddangos drwy'r gwaith cynhwysfawr yn ein harferion recriwtio. Rydym wedi gweithredu polisi recriwtio newydd gyda chanllawiau i sicrhau bod amrywiaeth yn cael blaenoriaeth ym mhob cam o'r daith recriwtio. Er mwyn sicrhau bod y safonau hyn yn cael eu cynnal, rydym wedi nodi gyrwyr strategol allweddol i sicrhau atebolrwydd:

- Hyfforddiant Gorfodol ar gyfer Rheolwyr Recriwtio a Sgiliau Cyfweld : Un o'r prif ffactorau sy'n sbarduno cydymffurfiaeth - rhaid i bob aelod o staff sy'n ymwneud â recriwtio gwblhau'r hyfforddiant i sicrhau asesiadau ymgeiswyr gwrthrychol o ansawdd uchel.
- Paneli Cyfweld Amrywiol: Dyma sbardun hollbwysig sy'n cefnogi lliniaru rhagfarn bosibl a sicrhau bod ystod eang o safbwyntiau'n cael eu cynrychioli mewn penderfyniadau recriwtio.
- Banc Cwestiynau sy'n Canolbwyntio ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Mae cwestiynau sy'n ymwneud â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn rhan o'n banc cwestiynau cyfweiliad. Mae'r cwestiynau hyn wedi'u halinio â'n gwerthoedd craidd.

Er mwyn cynnal y safonau atebolrwydd uchaf, mae IGDC yn destun craffu rheolaidd a chadarn trwy archwiliadau mewnol ac allanol. Yn 2025, roedd hyn yn cynnwys asesiadau ar gyfer BS 76000 (Gwerthfawrogi Pobl) ac ISO 30415 (Amrywiaeth a Chynhwysiant) yn ogystal ag Archwiliad Diwylliant a Llesiant Staff cynhwysfawr. Mae Tabl 1 yn crynhoi'r archwiliadau a gwblhawyd i gefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ystod 2025.

Archwiliad	Statws	Camau Nesaf
BS 76000 Gwerthfawrogi Pobl ac ISO 30415 Amrywiaeth a Chynhwysiant	Cynhaliwyd archwiliad allanol ym mis Tachwedd 2025. Cadarnhaodd yr archwilydd ym mis Rhagfyr 2025 fod IGDC wedi cynnal ei ardystiad, gan ddangos cynnydd cadarnhaol.	Mae camau gweithredu sy'n cyd-fynd â chanfyddiadau'n cael eu rhoi ar waith, a'u monitro drwy system ansawdd, fel rhan o welliant parhaus.
Diwylliant a Llesiant Staff (PCGC)	Adolygiad ymgynghorol i asesu diwylliant a llesiant staff presennol yn IGDC, gyda ffocws ar ymgysylltiad, boddhad gweithwyr a mecanweithiau cymorth.	Drafftio cynlluniau blynnyddol Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a HWB, wedi'u halinio â'r amcanion yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.
Archwiliad Recriwtio (PCGC)	Mae archwiliad trylwyr sy'n cynnwys casglu data, samplu cyfweiliadau ac adolygu polisiâu ar y gweill ar hyn o bryd.	Disgwylir y bydd y gwaith casglu data a gwybodaeth ar gyfer yr archwiliad wedi'i gwblhau yn chwarter 4, ac wedi hynny, bydd canlyniadau, canfyddiadau ac argymhellion yn cael eu rhannu ag IGDC.
Archwilio E-Ffeiliau (Mewnol)	Cynhaliwyd archwiliad o'r broses newydd ei gweithredu ar gyfer rheoli storio gwybodaeth bersonol gweithwyr yn dilyn datgomiysnu system Galileo a'r newid i SharePoint.	Arolygiadau parhaus ac archwiliadau mewnol o ffeiliau, er mwyn sicrhau bod gwybodaeth am weithwyr yn cael ei storio'n gywir.

Mae Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EQIAs) yn sicrhau ein bod yn ymgorffori cydraddoldeb a chynhwysiant yn ein polisiau, ein strategaethau, ein prosiectau a'n harferion. Caiff ein gwaith ei ystyried drwy lens tegwch, cydraddoldeb, cynhwysiant a hygyrchedd. Mae'r dull trylwyr hwn yn sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu hintegreiddio i gamau cynllunio a datblygu ein gwaith, gan sicrhau bod unrhyw effaith yn cael ei hystyried yn y cam cynharaf gan gefnogi gwneud penderfyniadau effeithiol a phriodol. Yn ystod y cyfnod, cwblhawyd cyfanswm o 31 o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Gweler Tabl 2 am enghreifftiau o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'u cwblhau.

Enw'r Prosiect, Polisi, Strategaeth neu Gynllun	Diben	Effaith ar Gydraddoldeb a datrysiadau a Nodwyd
Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Fferylliaeth Gymunedol	I ddarparu mynediad i fferyllwyr cymunedol i'r 'Ffurflen Cydnabod Risg Flynyddol' drwy Borth Clinigol Cymru	Cywirdeb gwell a mynediad haws at wybodaeth, gan arwain at ofal mwy diogel i gleifion.
Azure	I fudo data IGDC a Meddygon Teulu sydd wedi'i storio ar y safle i ddatrysiad sy'n seiliedig ar y cwmwl	Effaith gadarnhaol gan y bydd gwelliannau i wydnwch a storio data, ynghyd â'r amddiffyniad perthnasol yn cael ei storio.
Polisi Gweithio Y Tu Allan i'r DU 2025	Sefydlu proses orfodol ar gyfer staff IGDC sy'n dymuno gweithio y tu allan i'r DU, yn gyfnodol.	Effaith ar staff amrywiol sy'n cynnwys staff sydd â theulu dramor, neu'r rhai sydd wedi mewnfudo i'r DU, gyda chyfrifoldebau y tu allan i'r DU.
Cofrestru i Roi Organau	Er mwyn caniatáu i unigolion gofnodi, diweddarau neu dynnu eu dewisiadau rhoi organau yn ôl yn hawdd drwy ap GIG Cymru.	Mae'r ap yn darparu platfform hawdd ei ddefnyddio i gofnodi casglu gwybodaeth amrywiol a sicrhau hygyrchedd i grŵp ehangach o unigolion.

Mae ein dull o addysgu yn ymestyn y tu hwnt i gydraddoldeb hiliol sylfaenol ac wedi ehangu i groesawu model ehangach o gynhwysiant diwylliannol, gan gydnabod y cefndiroedd amrywiol sy'n llunio ein gweithlu. Yn unol â hyn, fe wnaethon ni gynnwys blog personol ym mis Mawrth 2026 yn dathlu Treftadaeth Iwerddon, a ysgrifennwyd ar y cyd gan weithiwr a'i dad. Mae'r darn yn cynnwys profiadau teuluol personol iawn am Derry, Gogledd Iwerddon, gan archwilio esblygiad ysbrydol a hanesyddol Dydd Gŵyl Padrig ochr yn ochr ag arwyddocâd diwylliannol murluniau'r ddinas. I ategu'r naratif personol hwn gydag ymgysylltiad ymarferol, cynhaliodd Rhwydwaith HWB ddigwyddiad blasu moctêls a chwrw di-alcohol Gwyddelig, gan gynnig dewisiadau amgen cynhwysol yn lle alcohol wrth ddathlu amrywiaeth y cefndiroedd diwylliannol yn IGDC.

YMRWYMIAD 3 - DEFNYDDIO DATA AC OLRHAIN I DDEALL EIN MAN CYCHWYN A'N HYMRWYMIADAU CEFNOGOL

Er mwyn mesur cynnydd yn effeithiol a sicrhau atebolrwydd, mae IGDC wedi ymrwymo i gasglu a dadansoddi data cadarn ar draws dangosyddion cydraddoldeb allweddol. Mae'r data a'r wybodaeth a rennir isod yn rhoi cipolwg ar sut rydym yn defnyddio data ac olrhain i gefnogi cyflawni ein hymrwymadau, a sut rydym yn mesur cynnydd.

CYNRYCHOLAETH GWEITHLU IGDC:

Yn ôl y data diweddaraf a dynnwyd ar gyfer 2025, mae 13% o staff IGDC yn nodi eu bod yn Lleiafrifoedd Ethnig, sy'n cynrychioli cynnydd cadarnhaol o 1% o'r 12% a adroddwyd yn y cyfnod blaenorol. Yn ogystal, mae 8.89% o'n pobl yn nodi eu bod yn anabl. Caiff yr ystadegau hyn eu monitro'n fisol ar draws pob Cyfarwyddiaeth i ysgogi gwelliant parhaus mewn cynrychiolaeth ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig.

Lansiodd IGDC Strategaeth Pobl ddiwygiedig (2026-2030). Yn ystod datblygiad

y strategaeth, cynhaliwyd ymgynghori ac ymgysylltu cynhwysfawr ar draws y sefydliad ac estynnwyd hyn i gynnwys rhanddeiliaid mewnol ac allanol.

Mae adolygiadau Cyfarwyddiaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol ddwywaith y flwyddyn a chraffu Gweithredol yn ganolog i'n llywodraethu, sy'n gwasanaethu fel mecanweithiau ffurfiol ar gyfer asesu cynnydd a gweithgareddau ar gyfer y swyddogaeth Pobl. Cytunwyd ar gerrig milltir ar gyfer y cyfnod 2026–27, a fydd yn rhan o'r adolygiadau ddwywaith y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys cynnydd parhaus ar gyfer rheoli talent strategol, trwy ddysgu a datblygu fel y Porth Dysgu Digidol, yn ogystal â mentrau fel dadansoddi bylchau sgiliau a chynllunio olyniaeth.

Cynrychiolaeth o ran Rhywedd a Chyflog: Ar 31 Mawrth 2025, roedd menywod yn cynrychioli 43% o weithlu IGDC, sef ffigur sydd wedi aros yn sefydlog sy'n dangos bod cadw staff yn dda. Mae ein cynrychiolaeth ar y Bwrdd yn parhau i fod yn gryfder sylweddol, gyda menywod yn dal 53% o swyddi, sy'n parhau i fod yn sylweddol uwch na chyfartaledd y DU o 42% (Kollewe, 2024). Mae cynrychiolaeth gwrywaidd wedi aros yn sefydlog.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd olrhain data a gwybod ein man cychwyn i fonitro cynnydd a meysydd i'w gwella dros amser. Mae cynnydd parhaus wedi'i weld mewn lefelau uwch, yn benodol o fewn band 8d, lle'r oedd cynrychiolaeth menywod yn fwy na chynrychiolaeth dynion (Gweler Tabl 3). Gwnaethon ni adolygu cynrychiolaeth menywod ar draws rolau Band 8, gan fod y swyddi hyn yn ffurfio'r brif biblinell i swyddi Band 9 a swyddi ar lefel y Bwrdd. Drwy ddadansoddi tueddiadau ar y lefelau hyn, gallwn greu llwybr cynaliadwy a theg sy'n cefnogi talent benywaidd i symud ymlaen i rolau arweinyddiaeth uchaf IGDC.

Band	Benyw (2022)	Gwryw (2022)	Benyw (2023)	Gwryw (2023)	Benyw (2024)	Gwryw (2024)
Band 8d	45%	55%	46%	54%	57%	43%
Band 8c	31%	69%	32%	68%	36%	64%
Band 8b	30%	70%	31%	69%	31%	69%
Band 8a	35%	65%	35%	65%	35%	65%

